

Comisiwn Cydraddoldeb
Adroddiad Ymchwil 101

Agweddau Rhagfarnllyd ac Ymddygiad Anghyfreithlon:

Ceisio ysgogi ar gyfer

Crynodeb gweithredol

Dominic Abrams, Hannah J. Swift a Lynsey Mahmood
Canolfan Astudio Proses Grŵp, Prifysgol Caint

© 2016 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddiad cyntaf: Gorffennaf 2016

ISBN: 978-1-84206-677-5

Cyfres Adroddiadau Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (Equality and Human Rights Commission)

Mae Cyfres Adroddiadau Ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn cyhoeddi ymchwil a wnaed dros y Comisiwn gan ymchwilwyr wedi eu comisiynu.

Barn yr awduron yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o angenrheidrwydd yn cynrychioli barn y Comisiwn. Mae'r Comisiwn yn cyhoeddi'r adroddiad fel cyfraniad at drafodaeth a dadl.

Cysylltwch â'r Tîm Ymchwil am ragor o wybodaeth am adroddiadau ymchwil eraill y Comisiwn, neu ewch i'n gwefan.

Post: Research Team
Equality and Human Rights Commission (Comisiwn Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol)
Arndale House
The Arndale Centre
Manchester M4 3AQ

E-bost: research@equalityhumanrights.com

Ffôn: 0161 829 8500

Gwefan: www.equalityhumanrights.com

Gallwch lawrlwytho copi o'r adroddiad hwn fel PDF o'n gwefan:

www.equalityhumanrights.com

Os bydd arnoch angen y cyhoeddiad hwn ar ffurf arall, cysylltwch â'r Tîm Cyfathrebu i drafod eich anghenion yn: correspondence@equalityhumanrights.com

Mae gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ('y Comisiwn') ddiddordeb mewn archwilio'r cysylltiad rhwng agweddau ac ymddygiadau rhagfarnllyd er mwyn adnabod beth ellir ei wneud i atal ymddygiad anghyfreithlon yng Nghymru, Lloegr a'r Alban (Prydain Fawr), ac ymateb yn effeithiol. I fwydo'r gwaith hwn comisiynwyd yr adroddiad hwn i grynhoi ac i integreiddio tystiolaeth o'r ymchwil ym Mhrydain Fawr rhwng 2005-15. Y nod oedd delio â thri chwestiwn sylfaenol:

1. Beth yw natur y berthynas rhwng agweddau rhagfarnllyd a gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ar sail hunaniaeth a thrais?
2. I ba raddau mae cyffredinrwydd ymddygiad anghyfreithlon yn seiliedig ar agweddau rhagfarnllyd ym Mhrydain Fawr?
3. Beth sy'n wybyddus ynghylch sut i atal neu ymateb i ymddygiad anghyfreithlon yn seiliedig ar agweddau rhagfarnllyd?

Archwilir y cwestiynau hyn mewn perthynas â'r holl nodweddion a ddiogelir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Equality Act 2010) (oedran, hil, rhyw, anabledd, crefydd a chredoau, ailbennu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil a beichiogrwydd a mamolaeth). Cyfeiriwn at y rhain fel 'nodweddion gwarchoddedig'.¹ Mae'r dull hwn yn ein galluogi i edrych ar wahaniaethau yn ogystal â'r pethau sy'n gyffredin rhwng y nodweddion gwarchoddedig, gan roi mewnwelediad i'r Comisiwn ar ba ysgogiadau ar gyfer newid allai fod yn effeithiol neu'n benodol i brofiadau o wahaniaethu, aflonyddu ar sail hunaniaeth a thrais yn erbyn y bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig penodol ac eraill sy'n rhannu'r un nodweddion.

Natur agweddau rhagfarnllyd ac ymddygiad anghyfreithlon

Defnyddiwn y diffiniad canlynol o ragfarn:

'tuedd sy'n iselhau pobl oherwydd eu haelodaeth tybiedig o grŵp cymdeithasol' (Abrams, 2010, t. 8).

Mae rhagfarn yn cwmpasu nifer o wahanol elfennau. Mae'r rhain yn cynnwys: y ffordd y mae pobl yn categoreiddio'i gilydd; y stereoteipiau a'r disgwyliadau a gysylltir

¹Rhoddir termau penodol a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn yn yr Eirfa.

ganddynt â'r categorïau hyn; y graddau maent yn tybio bod gan grwpiau werthoedd a nodau sy'n gwrthdaro ac yn gyd-ddibynnol; eu parodrwydd i ymgysylltu'n gymdeithasol a chreu cysylltiadau â'i gilydd; yr emosiwn a deimlant am eu grwpiau eu hunain a grwpiau eraill; a'r normau a'r pwysau cymdeithasol sy'n effeithio ar eu hymddygiad. Mae'r rhain oll wedi'u sefydlu mewn cyd-destun cymdeithasol ehangach, lle gallai'r grwpiau fod mewn gwrthdaro, neu ddim, a lle mae cysylltiadau cymdeithasol o fewn cymunedau yn fwy neu yn llai cydlynol a chydgoriol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ymddygiadau sy'n gwahaniaethu yn erbyn eraill ac/neu yn anghyfreithlon ac wedi eu hanelu at rywun gan fod ganddo ef neu hi nodwedd warchoddedig; yn yr achos hwn, gwahaniaethu, aflonyddu ar sail hunaniaeth a thrais.

Prin iawn yw'r dystiolaeth ym Mhrydain Fawr sy'n cysylltu gwerthoedd² ac agweddau rhagfarnllyd unigolion ar un law â gweithredoedd neilltuol o ymddygiad anghyfreithlon ar y llaw arall. Fodd bynnag, mae damcaniaeth gref a thystiolaeth ryngwladol bod yr elfennau hyn yn gysylltiedig (Abrams, 2010). Felly, gan ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar bob un o'r elfennau hyn a'r modd y maent wedi'u cysylltu, gall hyn fod o gymorth i ni gael darlun mwy clir o'r sefyllfa a wynebier gan bobl sy'n rhannu pob nodwedd warchoddedig, yn ogystal â'r hyn ellir ei wneud i ymateb i ymddygiad anghyfreithlon a'i leihau.

Dengys tystiolaeth o Brydain Fawr bod yna wahanol fathau o agweddau rhagfarnllyd a anelir at bobl sy'n rhannu gwahanol nodweddion gwarchoddedig a bod profiadau o ymddygiad gwahaniaethol yn dibynnu hefyd ar ba un o'r nodweddion gwarchoddedig sydd yn berthnasol ynghyd â'r cyd-destun lle digwydd y gwahaniaethu.

Canfuwyd profiadau o aflonuddu ar sail hunaniaeth ar gyfer y rhan helaeth o'r nodweddion gwarchoddedig. Ar gyfer rhai o'r nodweddion gwarchoddedig amlygir hyn fel troseddau casineb, fodd bynnag nid yw pob nodwedd warchoddedig yn cael eu hadnabod dan ddeddfwriaeth bresennol troseddau casineb. Am adolygiad manylach o'r hyn sy'n achosi troseddau casineb, ynghyd ag ysgogiadau, gweler Walters, Brown a Wiedlitzka (2016).

Mae'r rhannau canlynol yn crynhoi'r dystiolaeth ar gyfer pob nodwedd warchoddedig yn eu tro. Mae gwahaniaethau pwysig yn natur agweddau rhagfarnllyd tuag at

² Gweler yr Eirfa ar ddiwedd yr adroddiad am ddefiniadau o rai o'r termau a ddefnyddir drwyddo.

wahanol grwpiau, a'r modd a'r sefyllfaoedd yr amlygir yr ymddygiadau anghyfreithlon hyn tuag at y grwpiau hynny. Fodd bynnag, ar draws y nodweddion gwarchoddedig mae elfennau cyffredin mewn profiadau o wahaniaethu, aflonyddu ar sail hunaniaeth a thrais. Ystyrir rhai o'r elfennau troswaol hyn yn y rhannau ar gyffredinolrwydd ymddygiadau anghyfreithlon a'r rhai ar ymyriadau. Mae tystiolaeth yn amlygu y gallai dulliau sy'n ceisio meithrin agweddau cadarnhaol ac ymddygiadau cysylltiedig yn fwy cyffredinol gael effaith fwy sylweddol ar draws y nodweddion gwarchoddedig a'r croesdoriadau cymleth sy'n bodoli rhyngddynt.

Anabledd

Ni chanfuwyd unrhyw dystiolaeth a oedd yn asesu'n uniongyrchol y cysylltiad rhwng agweddau rhagfarnllyd tuag at bobl anabl a phrofiadau pobl anabl o wahaniaethu, aflonyddu ar sail hunaniaeth a thrais. Fodd bynnag, amlygodd y dystiolaeth sydd ar gael bod gwahaniaethu ar sail anabledd, er yn gysylltiedig â'r gred bod hawliau pobl anabl yn bwysig, yn cael ei yrru gan rwystrau strwythurol, categoreiddio gor-symbl, a stereoteipiau nawddoglyd.

Mae datganiadau o agweddau rhagfarnllyd tuag at bobl â chyflyrau iechyd meddwl yn fwy negyddol na'r rhai a gyfeirir at bobl sydd ag anableddau corfforol. Fodd bynnag, o'r ymchwil hwn gwelwyd bod tystiolaeth o brofiadau o wahaniaethu ac ymddygiadau anghyfreithlon ar gael ar gyfer anabledd corfforol neu anabledd fel categori cyffredinol yn unig. Mae agweddau trawsdoriadol pwysig o anabledd gyda grwpiau neilltuol o leiafrifoedd ethnig neu bobl hŷn.

Dyluniwyd y rhan fwyaf o'r ymyriadau a adolygwyd (8 allan o 31) i leihau agweddau rhagfarnllyd tuag at bobl anabl. Yn gyffredinol, cyswllt rhwng pobl anabl a phobl abl sy'n creu'r canlyniadau mwyaf effeithiol, yn enwedig pan mae ffactorau eraill yn y sefyllfa wedi'u hoptimeiddio (er enghraifft, mae statws cyfartal a chydweithrediad). Yr ymgyrch Amser i Newid (2009) oedd yr ymyriad mwyaf a'r un gyda'r dystiolaeth orau, gan ganolbwyntio ar leihau stigma iechyd meddwl.

Hil

Mae peth tystiolaeth yn awgrymu bod pobl sydd â gwell gwerthfawrogiad o amrywiaeth yn dangos llai o ymddygiadau gwahaniaethol yn seiliedig ar hil, ond dengys tystiolaeth arall hyd yn oed pan nad yw pobl yn cydnabod neu'n dangos eu rhagfarnau gallant eto fyth wneud penderfyniadau gwahaniaethol.

Mae arolygon sy'n asesu datganiadau o ragfarn wedi canolbwyntio'n bennaf ar agweddau tuag at wahanol grwpiau ethnig a mewfudwyr, ceisiwyr lloches a ffoaduriaid. Tybir bod agweddau tuag at bobl Dduon ac Asiaidd yn eithaf sefydlog, a thybir hefyd bod rhagfarn yn is tuag atynt na thuag at bobl o Ddwyrain Ewrop.

Adlewyrchir profiadau o wahaniaethu ar sail hil mewn ystadegau ar droseddau casineb. Mae hil yn parhau fel yr ysgogiad ar gyfer troseddau casineb yr adroddir fwyaf arno, yn ôl yr hyn a gofnodir gan yr heddlu yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Gwelwyd y dystiolaeth uchaf o wahaniaethu mewn cyd-destun cyflogaeth ac addysg.

Mae hil yn gategori cymhleth gan fod ymchwil weithiau, ond nid bob tro, yn cynnwys grwpiau fel Sipsiwn a Theithwyr a cheiswyr lloches a mewnfudwyr (sy'n cynnwys cenedligrwydd, ethnigrwydd, lliw croen a ffactorau eraill) ynddo.³ Mae peth sail seicolegol ar gyfer hyn (er enghraifft, mae rhagfarnau cyffredin yn cynnwys ystyried y grŵp fel un sy'n fygythiad). Ar draws y categori, ceir peth tystiolaeth bod dulliau effeithiol wedi cynnwys hyrwyddo cyswllt cadarnhaol rhwng grwpiau drwy ddefnyddio dulliau addysgiadol.

Crefydd neu gred

Mae tystiolaeth o gysylltiad rhwng agweddau rhagfarnllyd ac ymddygiadau bwriededig sy'n dangos bod teimladau o densiwn rhwng hunaniaeth genedlaethol a chrefyddol, bod yn llai dynol, a phrofiadau neu dybiaethau o wahaniaethu yn arwain at gynydd mewn gelyniaeth a chefnogi barnau eithafol.

Mae datganidau o ragfarn crefyddol yn aml yn canolbwyntio ar wahaniaethau gwledol (er enghraifft, gwisg grefyddol neu symbolau). Dengys tystiolaeth o asesu agweddau tuag at grwpiau crefyddol gwahanol y tybir Moslemiaid fel y grŵp a dargedir amlaf o ran agweddau rhagfarnllyd, a bod hyn yn gysylltiedig â bygythiad diwylliannol tybiedig. Adnabuwyd croesdoriadau rhwng crefydd a chredoau a hil, yn ogystal â chyfeiriadedd rhywiol, lle adrodda unigolion ar hunaniaethau'n gwrthdaro sy'n gwaethygu pryderon ynghylch gwahaniaethu.

Ceir tystiolaeth o brofiadau o wahaniaethu gan amlaf drwy adroddiadau o droseddau casineb, er enghraifft digwyddiadau o gasineb gwrth-Foslemaidd a gofnodwyd gan

³ Mae cenedligrwydd a dinasyddiaeth wedi'u cynnwys dan ddiffiniad y Comisiwn o'r nodwedd warchoddedig o hil, ynghyd â lliw a tharddiad ethnig neu genedlaethol.

Tell MAMA, neu ddigwyddiadau gwrth-Semitaidd a gofnodwyd gan Ymddiriedolaeth Diogelwch Cymuned (Community Security Trust, CST). Awgryma tystiolaeth bod profiadau o gasineb ar-lein yn gyffredin ymysg pobl o'r ddwy gred a gallai fod yn faes sydd angen ymyrraeth bosib.

Mae dulliau ymyrraeth effeithiol wedi cynnwys cynnydd mewn cyswllt anuniongyrchol rhwng pobl o wahanol grefyddau (er enghraifft, drwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol) ac addysg sy'n annog trafod normau rhwng grwpiau (canllaw ynghylch pa ymddygiad a ystyrir yn dderbyniol neu sy'n ddisgwyliedig gan aelodau o wahanol grwpiau cymdeithasol) er mwyn herio rhagfarn.

Oed

Mae tystiolaeth o gysylltiad rhwng agweddau rhagfarnllyd ac ymddygiadau gwahaniaethol ar sail oed sy'n dangos y gall stereoteipiau, er yn garedig) effeithio'n uniongyrchol ar hunia-gysyniad a gallu pobl hŷn.

Mae datganiadau o agweddau rhagfarnllyd yn gadarnhaol fel arfer tuag at bob oed, ond mae gwahaniaethu ar sail oed yn effeithio ar bob grŵp oedran. Awgryma tystiolaeth bod agweddau tuag at bobl hŷn yn fwy caredig a nawddoglyd, tra bod pobl ifancach yn wynebu stereoteipiau mwy bygythiol. Mae angen rhagor o ymchwil i ddeall effaith stereoteipiau o'r fath ar bobl ifancach.

Mae agweddau rhagfarnllyd ar sail oed yn niweidiol pan amlygant fel gwahaniaethu mewn cyflogaeth ac mewn sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol, lle bydd pobl hŷn yn cael eu hatal efallai rhag cael cyfleoedd a roddir yn hytrach i bobl ifancach. Mewn sefyllfaoedd cyflogaeth mae hyn yn broblem neilltuol i fenywod, sy'n adrodd gwahaniaethu deublyg (oed a rhyw).

Awgryma tystiolaeth y gall ymwybyddiaeth o stereoteipiau ar sail oed fod yn neilltuol o niweidiol i bobl hŷn a'i waethygu drwy'r iaith a ddefnyddir wrth gyfeirio at oed hŷn. Mae profiadau o wahaniaethu ar sail oed yn bodoli mewn sefyllfaoedd iechyd a gofal cymdeithasol, ble yn aml caiff cleifion hŷn eu trin yn wahanol i gleifion ifancach mewn gofal sylfaenol, darpariaeth gwasanaeth iechyd meddwl a gofal iechyd mewn carchardai.

Amlygwyd dwy enghraifft o ymyrraeth i leihau gwahaniaethu ar sail oed, a nod y ddwy oedd herio stereoteipiau a normau ynghylch oed hŷn, ac i gynyddu'r cysylltiadau cadarnhaol rhwng pobl hŷn a phobl ifanc.

Rhyw

Mae tystiolaeth o gysylltiad rhwng agweddau rhagfarnllyd tuag at fenywod (ac agweddau tuag at wrywod) ac ymddygiadau anghyfreithlon. Bu i ymchwil gysylltu agweddau ynglŷn â gwrywod a'r gwerthoedd sydd gan bobl ynghylch rhywedd i'r modd y caiff gweithwyr rhyw benywaidd eu trin yn yr Alban.

Mae datganiadau o agweddau rhagfarnllyd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddehongli gwerthoedd a rolau menywod mewn cymdeithas, yn ogystal â stereoteipiau rhyw. Yn unol ag anabledd ac oedran, ymddengys bod agweddau tuag at fenywod yn gadarnhaol ond gallant guddio ffurfiau mwy 'caredig' neu nawddoglyd o ragfarn. Awgryma lefelau uchel o drais yn erbyn menywod a merched anghysondeb rhwng yr hyn a ymddengys yn agweddau a phrofiadau caredig. Er y dystiolaeth y dymuna'r rhan fwyaf o bobl weld cyfleoedd cyfartal i ddynion a menywod, ymysg y rhai sydd mewn grym dros gyfle cyfartal mewn cyflogaeth, ceir darlun gwahanol iawn.

Archwilir gwahaniaethu ar sail rhyw ar draws nifer o sefyllfaoedd gan gynnwys cyflogaeth, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol. Gwelwyd tystiolaeth ble roedd nodweddion gwarchoddedig yn gorgyffwrdd rhwng rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Mae ymyriadau wedi canolbwyntio ar drais rhwng menywod yn ogystal â thrais partner a achoswyd gan fenywod. Roedd dull â thystiolaeth gref a oedd yn canolbwyntio ar addysgu pobl am drais domestig yn effeithiol wrth leihau'r modd y tybiwyd bod trais domestig ymysg plant yn dderbyniol.

Cyfeiriadedd rhywiol

Er mai ar y nodwedd warchoddedig hon ceir y mwyaf o dystiolaeth, prin iawn oedd yr archwilio ar y cyswllt uniongyrchol rhwng agweddau rhagfarnllyd ac ymddygiadau anghyfreithlon. Un darn o dystiolaeth lwyddodd i wneud hynny, gan ddangos bod helpu ymddygiad (yn yr achos hwn, benthyca arian i dalu ffi barcio) yn is ar gyfer unigolyn y tybiwyd ei fod yn wrwydiol, o'i gymharu ag unigolyn gwahanrywiol. Fodd bynnag, tybiwyd ynghylch agwedd yr 'helpwr' yn hytrach na'i mesur yn uniongyrchol.

Awgryma ymchwil ar ddatganiadau o agweddau rhagfarnllyd duedd sy'n gwella dros amser, yn enwedig ar fesurau o bellter cymdeithasol. Fodd bynnag, tybir fod rhai gwerthoedd (fel crefydd) a sefyllfaoedd (er enghraifft chwaraeon) yn creu rhwystrau rhag cydraddoldeb.

Mae profiadau o wahaniaethu yn canolbwyntio ar ystadegau troseddau casineb yn bennaf. Awgryma'r rhain yr ysgogir troseddau gan elyniaeth tuag at gyfeiriadedd rhywiol neilltuol, yn enwedig dynion hoyw. Addysg, cyflogaeth ac iechyd a gofal cymdeithasol yw'r prif sefyllfaoedd ble cwblhawyd ymchwil ar wahaniaethu homoffobig.

Mae tystiolaeth bod profiadau menywod a dynion angen rhagor o archwilio unigol. Mae llai o dystiolaeth ar y sefyllfa gyda menwyod o'i gymharu â dynion hoyw, yn enwedig y rhai ag anableddau.

Gwelwyd y byddai dull ymyrraeth ysgol gyfan yn debygol o fod yn effeithiol er mwyn delio â bwlio homoffobig, biffobig a thrawsffobig ymysg plant oed ysgol a phobl ifanc, ond nid oedd unrhyw enghreifftiau eraill o ymyriadau i'w cymharu yn eu herbyn o ran effaith.

Ailbennu rhywedd

Prin iawn yw'r dystiolaeth o gyswllt rhwng agweddau ac ymddygiadau ar gyfer y nodwedd warchoddedig hon, gan awgrymu cyswllt rhwng gwerthoedd yn unig, megis y gred bod rhyw â sail fiolegol, a gostyngiad yn y gefnogaeth i hawliau trawsrywiol. Ni chafwyd unrhyw ymchwil yn edrych ar ymddygiadau a effeithir yn uniongyrchol gan agweddau neu werthoedd.

Ychydig iawn o ymchwil a ganfuwyd yn yr adolygiad systematig a edrychodd yn uniongyrchol ar agweddau tuag at bobl trawsryweddol. Bu i lawer iawn o'r ymchwil ar y grŵp gael ei lyncu gan ymchwil ar gyfeiriadedd rhywiol.

Gwahaniaeth pwysig o'i gymharu â chyfeiriadedd rhywiol yw bod y prif droseddwyr o wahaniaethu, aflonyddu neu trais ar sail trawsffobig yn fwy tebygol o fod yn ddieithriaid (yn hytrach na chyfoedion). Roedd ofn gwahaniaethu'n fwy cyffredin na'i brofi, yn enwedig gyda digwyddiadau na phrofwyd yn aml ond a dybiwyd eu bod yn brofiadau mwy difrifol a gyda mwy o amser i wella ohonynt (er enghraifft, ymosodiad corfforol neu rywiol). Fodd bynnag, mae'n debygol, yn unol ag amryw o fathau o droseddau casineb, bod cyffredinrwydd llawer uwch o droseddau casineb ar sail trawsrywioldeb yn bodoli nag a adroddir mewn arolygon troseddau neu ystadegau'r heddlu.

Ni lwyddodd y gwaith chwilio drwy'r ddogfennaeth i adnabod unrhyw ymyriadau.

Priodas a phartneriaeth sifil

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gysylltiadau rhwng agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â phriodas a phartneriaeth sifil.

Amlygwyd ychydig o dystiolaeth ar agweddau rhagfarnllyd ac ymddygiadau gwahaniaethol mewn perthynas â statws priodas drwy'r adolygiad systematig, yn ogystal ag ar draws doriadoldeb â nodweddion gwarchoddedig eraill (er enghraifft, hil, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol). Mae'n debygol bod hyn oherwydd bod elfennau unigryw yn ymwneud â'r nodweddion gwarchoddedig hyn (er enghraifft, gwerthoedd diwylliannol), sy'n dylanwadu ar agweddau a disgwyliadau yn ymwneud â phriodas a pherthynas.

Mae agweddau tuag at berthynas a phriodas o'r un rhyw wedi dod yn fwy cadarnhaol dros amser, er mae'r gefnogaeth yn dueddol o fod yn gryfach ymysg grwpiau oed ifancach.

Y maes ble ymddengys bod angen ymyrraeth frys yw priodas dan orfod, gyda menywod a phlant, yn enwedig o grwpiau ethnig lleiafrifol, yn wynebu'r peryglon mwyaf. Mae amryw o sefydliadau ac elusenol yn gweithio'n galed i ddelio â goblygiadau priodas dan orfod ar gyfer unigolion. Mae priodas dan orfod yn codi tair her bolisi wahanol: mae'n fater allweddol a ddefnyddir gan rai pobl i gyfiawnhau eu rhagfarn yn erbyn rhai lleiafrifoedd ethnig; caiff ei gyfleu gan rai gwleidyddion fel mater yn ymwneud â hil a mewnfudo; yn ei hanfod mae'n gwestiwn o hawliau dynol a chydraddoldeb rhyw. Rhaid cydnabod y tair elfen wrth lunio polisi.

Ni lwyddodd y gwaith chwilio drwy'r ddogfennaeth i adnabod unrhyw ymyriadau.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Nid oedd unrhyw dystiolaeth o gysylltiadau rhwng agweddau ac ymddygiadau mewn perthynas â beichiogrwydd a mamolaeth. Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a gafwyd yn y maes hwn yn canolbwyntio ar sefyllfaoedd o gyflogaeth.

Ymchwiliwyd datganiadau o ragfarn ymysg cyflogwyr a chyflogeion, gan ganolbwyntio'n bennaf ar safbwyntiau ynghylch absenoldeb riant a rolau'r rhywiau. Amlyga dystiolaeth y gall rhagfarnau cyflogwr adlewyrchu ffactorau strwythurol ac economaidd y tybiant sy'n ymwneud â gwrthdaro rhwng cydraddoldeb ac anghenion economaidd y busnes.

Adrodda menywod mewn cyflogaeth sydd wedi dychwelyd i'r gwaith wedi cyfnod o absenoldeb rhiant iddynt gael eu gwahaniaethu, ac ymddengys bod anghysondeb rhwng profiadau cyflogeion a barn cyflogwyr ynglŷn ag a yw eu polisiau o ddefnydd ac wedi eu gweithredu er budd mamau. Awgryma'r dystiolaeth mai diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth sydd wrth wraidd ymddygiadau gwahaniaethol yn hytrach nag agweddau rhagfarnllyd o bosib.

Y tu hwnt i'r gweithle, adrodda mamau sydd yn eu harddegau eu bod yn teimlo iddynt gael eu heithrio, eu sarhau a'u stereoteipio, gan awgrymu y gallant fod yn neilltuol o fregus i gael eu gwahaniaethu.

Mae rhai o'r heriau yn y maes hwn yn cael eu gwaethygu gan drawsdoriadau ag anabledd, hil a chyfeiriadedd rhywiol, a all greu rhwystrau ychwanegol, disgwyliaidau gwahanol a stereoteipiau a all drwytho anghysondeb i mewn i ofal iechyd.

Ni lwyddodd y gwaith chwilio drwy'r ddogfennaeth i adnabod unrhyw ymyriadau.

Graddau a chyffredinrwydd ymddygiad anghyfreithlon

Mae maint ac ansawdd tystiolaeth o wahaniaethu a gofnodir yn anghyson ac yn amrywiol iawn. Mae mwy o dystiolaeth ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig (fel gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol) nag eraill (fel gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd). Fodd bynnag, mae tystiolaeth glir bod pobl yn profi gwahanaiethu oherwydd yr holl nodweddion gwarchodedig a bod nodweddion gwarchodedig rhai pobl, gan gynnwys anabledd, hil, crefydd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd, yn eu gwneud yn fregus i drais ar sail hunaniaeth (ar gyfer rhai nodweddion gwarchodedig cydnabyddir hyn fel troseddau casineb).⁴

Mae dod i gasgliadau ynghylch cyffredinrwydd a graddau ymddygiad anghyfreithlon yn seiliedig ar agweddau rhagfarnllyd yn anodd oherwydd natur gyfyngedig y dystiolaeth. Y tu mewn ac ar draws nodweddion gwarchodedig gwelsom nad oedd dull cyson o fesur datganiadau o agweddau rhagfarnllyd neu achosion o wahaniaethu. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o arolygon sy'n archwilio graddau rhagfarn a gwahaniaethu wedi canolbwyntio ar un nodwedd warchodedig yn unig, ac

⁴ Y nodweddion gwarchodedig a gydnabyddir fel troseddau casineb ym Mhrydain Fawr yw hil, crefydd neu gred, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, ac ailbennu rhywedd.

nid oes yr un arolwg neu ddarn o ymchwil yn cwmpasu profiadau o wahaniaethu yn erbyn pob un o'r naw nodwedd warchoddedig.

Mae dulliau a mesurau eraill o holi am brofiadau o wahaniaethu hefyd yn creu sawl darlun gwahanol ynglŷn â'i gyffredinrwydd. Mewn un arolwg gwelwyd bod 15 y cant o ymatebwyr wedi adrodd iddynt brofi gwahaniaethu neu ragfarn ar sail anabledd. Fodd bynnag, cofnododd arolwg arall bod 0.6 y cant o'r rhai a holwyd wedi profi gwahaniaethu neu ragfarn ar sail anabledd.

Gan hynny, ac ansawdd gwael y dystiolaeth sydd ar gael, nid yw'n bosibl darparu amcangyfrifon cywir o gyffredinrwydd gwahaniaethu neu ragfarn y gellir ei gymharu ar draws y nodweddion gwarchoddedig.

Atal ac ymateb i ymddygiad anghyfreithlon

Bu i'n hadolygiad systematig adnabod 31 o wahanol ymyriadau a ddefnyddiwyd i newid gwerthoedd, lleihau agweddau rhagfarnllyd neu atal gwahaniaethu neu ymddygiadau problemus, fel bwlio. Cwblhawyd y rhan helaeth o'r rhain (22) mewn sefyllfaoedd addysgol neu defnyddiwyd dulliau addysgol a thueddu i ganolbwyntio ar un pwynt dylanwad, er enghraifft; newid agweddau plant tuag at fenywod a thrin trais domestig fel rhywbeth derbyniol; herio normau eithafol; neu ddefnyddio cyswllt cymdeithasol (cyswllt rhwng pobl o wahanol grwpiau) i newid agweddau pobl am grŵp neilltuol.

Yr ymyrraeth a werthuswyd amlaf oedd yr ymgyrch Amser i Newid, a ganolbwyntiodd ar wahaniaethu ar sail iechedd meddwl. Mae'r ymgyrch yn mwynhau cymysgedd o ddulliau i ddylanwadu ar nifer o wahanol elfennau o ragfarn, gan gynnwys gwella gwybodaeth a deall sarhad ar sail anabledd a iechedd meddwl, newid agweddau tuag at bobl anabl neu'r rhai sydd â chyflwr iechedd meddwl, ac effeithio ar ysgogiad pobl i osgoi bod yn rhagfarnllyd am iechedd meddwl.

Ni lwyddodd yr adolygiad systematig i datgelu unrhyw ymyriadau y gellid eu hasesu ar gyfer ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, na beichiogrwydd a mamolaeth. Nid yw hyn yn golygu na weithredwyd unrhyw ymyriadau yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, nid oes yr un o'r ymyriadau hyn wedi'u gwerthuso na'u dogfennu mewn dogfennaeth academaidd neu arall.

Gan ein bod yn chwilio am yr ymyriadau mwyaf effeithiol, bu i ni archwilio cryfder unrhyw asesiad a ddefnyddiwyd i ddal effaith ymyriad. Gwerthuswyd ansawdd a pham mor gynhwysfawr oedd asesiad pob ymyriad fel ffordd o fesur yr hyder yn effeithiolrwydd yr ymyriad hwnnw. Ar raddfa o 0 i 100, amrywiodd y lefelau ansawdd o 15 i 73, gan amlygu'r amrywiaeth sylweddol a gawsom. Rydym yn cydnabod yr adnoddau a'r cyfyngiadau amser a brofir yn aml gan sefydliadau sy'n cwblhau'r prosiectau ymyriadau hyn, yn ogystal â'r her o gael mynediad at rai grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd. Yn sgil y materion hyn, efallai na fydd hi'n bosibl i'r sefydliadau hynny asesu effaith eu gwaith i'r eithaf. Mae angen rhagor o waith i sefydlu'r gymhareb fuddsoddi/budd o gyflawni gwahanol lefelau o hyder. Mae lefel o 75 y cant yn dda ond yn ddyhead costus serch hynny o bosib. Mae angen rhagor o waith i gynnig canllaw ar yr elfennau sy'n angenrheidiol er mwyn cael gwerthusiad defnyddiol ac sy'n cyrraedd y lefelau gofynnol. Gan dderbyn y bydd dichonoldeb gwerthusiad gorau (100 y cant) yn amrywio o un sefyllfa i'r llall, credwn y dylai unrhyw werthusiad orfod cyfiawnhau'r lefel o hyder a gyflwynir wrth gyrraedd y casgliadau ynghylch effaith eu gwaith, gyda chryfderau a chyfyngiadau'r gwerthusiadau wedi eu cyfleu'n glir.

Awgrymiadau ar gyfer polisi ac ymchwil

Wedi adolygu 197 o ffynonellau o dystiolaeth (31 ohonynt yn werthusiadau o ymyriadau) ac 85 o ffynonellau annibynnol o fesurau i nodi profiadau o wahaniaethu, mae'n amlwg nad yw hyd a lled y dystiolaeth ymchwil yn gyson ar draws y gwahanol nodweddion gwarchoddedig. Er enghraifft, roedd y corff mwyaf o dystiolaeth a mesur ar gyfeiriadedd rhywiol. Serch hynny, dau werthusiad yn unig o ymyriadau oedd wedi'u hanelu at newid rhagfarn tuag at bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Roedd yn amlwg, er nad oes dystiolaeth gref ynglŷn â bodolaeth agweddau rhywiaethol, prin iawn yw'r ffynonellau o dystiolaeth sy'n nodi cyffredinrwydd profiadau pobl o wahaniaethu ar sail rhyw.

Mae gan y dystiolaeth a'r bylchau yn y dystiolaeth a welwyd yn sgil yr adolygiad systematig hwn oblygiadau pwysig ar gyfer llunwyr polisi ac ymchwilwyr. Rhestrir y rhain isod.

Data a mesur

- **Datblygu gwell ansawdd a safon o fesur mewn arolygon**

Nid yw'r data sydd ar gael drwy arolygon presennol yn ein galluogi i greu amcangyfrifon awgrymol o brofiadau o wahaniaethu, aflonyddu a thrais ar sail hunaniaeth. Ymhellach, nid ydynt yn galluogi cymhariaeth rhwng profiadau pobl â gwahanol nodweddion gwarchoddedig, na phrofiadau pobl o wahanol wledydd ym Mhrydain Fawr.

- **Cynnal ffynonellau o dystiolaeth sy'n galluogi cymariaethau dros amser**

Mae'r diffyg neu'r golled o dystiolaeth sy'n galluogi cymariaethau dros amser yn broblem ac yn ei gwneud hi'n anodd asesu'n hyderus a yw profiadau o ragfarn a gwahaniaethu yn gwella, yn gwaethygu, neu'n newid mewn ffurf mewn rhai grwpiau neilltuol.

- **Gwella dystiolaeth ar bersbectif troseddwr yn ogystal â dioddefwyr rhai achosion penodol o wahaniaethu, aflonyddu a thrais ar sail hunaniaeth o fewn cyd-destunau a chyfnodau amser neilltuol.**

Bydd hyn yn rhoi gwell mewnwelediad ynghylch sut allai ymyriadau weithio orau mewn cyd-destunau neilltuol, ac i ba raddau y dylai canolbwynt yr ymyriad fod ar droseddwr, dioddefwyr, neu'r ddau.

- **Datblygu fframwaith cynhwysfawr ar drechu rhagfarn a gwahaniaethu**

Byddai hyn yn galluogi asesu'r dystiolaeth yn systematig ar draws gwahanol ddulliau ac ymyriadau er mwyn gwella'i pherthnasedd yn sylweddol ar gyfer llunio polisi. Byddai angen i'r fframwaith hwn ystyried y cyd-destun cymdeithasol, y sefyllfaoedd penodol, y cyfnod amser a'r cyfnod o newid, a'r nodweddion gwarchoddedig neilltuol sy'n berthnasol wrth gynllunio ymyriadau.

- **Gwella cadernid ac ansawdd gwerthusiadau**

Bydd datblygu dull o drothwy ansawdd i arwain ymyriadau i'r dyfodol yn galluogi asesu mwy hyderus a systematig o'r hyn sy'n effeithiol, pam ei fod yn effeithiol, a gwella perthnasedd yn sylweddol er budd llunio polisi.

Datblygu ymyriadau ac asesu'r hyn sy'n gweithio

- **Datblygu gwell mewnwelediad o sut allai ymyriadau weithio orau**

Nid yw'r sail dystiolaeth bresennol yn caniatáu ar gyfer unrhyw ddewisiadau polisi a arweinir gan dystiolaeth gadarn. Mae angen rhagor o ymchwil i ddal y

cysylltiadau rhwng persbectif troseddwr a dioddefwyr rhai achosion penodol o wahaniaethu ac ymddygiad anghyfreithlon o fewn rhai cyd-destunau a chyfnodau amser neilltuol.

- **Asesu effeithiolrwydd ymyriadau ar safonau haearnidd**

Os bydd ymyriadau'n cael eu dylunio a'u hasesu i'r dyfodol i fodloni safonau haearnidd, bydd hynny'n rhoi gwell hyder wrth ddehongli eu canlyniadau a chael gwell dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio. Byddai hyn yn galluogi'r wybodaeth a geir i fwydo'r gwaith o gyflwyno dulliau ymyrraeth ar draws nodweddion gwarchoddedig a chyd-destunau gwahanol.

- **Archwilio tystiolaeth a ddaw i'r amlwg y gallai dulliau ymyrraeth cyffredinol fod yn effeithiol ar draws nodweddion gwarchoddedig**

Mae dulliau ymyrraeth a ddefnyddiodd ddull mwy cyffredinol o ddelio â rhagfarn, gwahaniaethu a thrais ar sail hunaniaeth yn defnyddio gwaith addysgiadol i herio rhagfarn yn gyffredinol. Maent hefyd yn defnyddio dulliau fel annog cymryd persbectif neu atgyfnerthu gwerthoedd o gydraddoldeb a gwerthfawrogi bywyd dynol, ac amlygu normau cymdeithasol-gadarnhaol. Nid oes tystiolaeth mai dulliau effeithiol yw'r rhain a dylid eu profi ymhellach.

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau cydraddoldeb a hawliau dynol cysylltiedig ar gael o wefan y Comisiwn: www.equalityhumanrights.com.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd am gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb (Equality Advisory and Support Service), gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 hyd 20:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)
10:00 hyd 14:00 (dydd Sadwrn)

Post FREEPOST Equality Advisory Support Service (Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb) FPN4431

Rhaid cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at: correspondence@equalityhumanrights.com. Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau eraill

Mae'r adroddiad hwn ar gael hefyd fel ffeil Microsoft Word o www.equalityhumanrights.com. Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiad y Comisiwn ar ffurf amgen, cysylltwch â: correspondence@equalityhumanrights.com.

© 2016 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Cyhoeddwyd Gorffennaf 2016

Gallwch lawrlwytho hwn o

www.equalityhumanrights.com

© 2016 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cyhoeddiad cyntaf: Gorffennaf 2016